OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2024 Rhif 330 (Cy. 59)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *7 Mawrth 2024* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *11 Mawrth 2024* |
| *Yn dod i rym - -* | *8 Ebrill 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 50, 52, 53(3), 61 a 196(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**).

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2024.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 8 Ebrill 2024.

### Diwygio Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015

**2.** Mae Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn—

(a) yn rheoliad 13 (isafswm incwm ar gyfer person y darperir llety iddo mewn cartref gofal), yn lle "£39.50" rhodder "£43.90";

(b) yn rheoliad 28 (isafswm incwm ar gyfer person y darperir llety iddo mewn cartref gofal), yn lle "£39.50" rhodder "£43.90".

(**1**) 2014 dccc 4. *Gweler* adran 197(1) am y diffiniadau o "penodedig", "a bennir", "a bennwyd" a "rheoliadau".

(**2**) O.S. 2015/1843 (Cy. 271), a ddiwygiwyd gan O.S. 2023/67 (Cy. 12); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

*Julie Morgan*
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

7 Mawrth 2024

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015 ("y Rheoliadau Gosod Ffioedd").

Mae'r Rheoliadau Gosod Ffioedd yn nodi'r gofynion y mae rhaid i awdurdodau lleol eu bodloni wrth ddyfarnu swm y ffioedd sy'n gymwys mewn perthynas â gofal a chymorth a ddarperir neu a drefnir ganddynt wrth gyflawni eu swyddogaethau o dan Ran 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Rheoliadau Gosod Ffioedd hefyd yn cynnwys darpariaethau cyfochrog sy'n nodi gofynion sy'n gymwys pan fydd awdurdod lleol yn gwneud taliadau uniongyrchol i ddiwallu angen person am ofal a chymorth.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 13 o'r Rheoliadau Gosod Ffioedd (isafswm incwm ar gyfer person y darperir llety iddo mewn cartref gofal) i gynyddu'r swm incwm wythnosol net o £39.50 i £43.90. Mae rheoliad 28 hefyd wedi ei ddiwygio i wneud newid cyfatebol ar gyfer derbynnydd taliadau uniongyrchol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac fe'i cyhoeddir ar www.llyw.cymru.